"Mae addysg ddwyieithog wedi bod yn hollol ganolog yn fy natblygiad fel person ac i'm gyrfa fel darlledydd. Golyga fod y cyfleoedd ar agor i mi wedi dyblu. Mae fy ngallu i ddysgu ieithoedd eraill wedi cynyddu a'r ddawn holl bwysig i gyfathrebu a gwneud ffrindiau wedi eu ehangu.

Mae wedi rhoi i mi deimlad arbennig o gryf o berthyn a threftadaeth. Rhoddodd y cychwyn a gefais fel darlledydd yn y Gymraeg y profiad eang a oedd angen arnaf i symud ymlaen tuag at swydd fy mreuddwydion."

"Heb fy addysg ddwyieithog byddwn mewn lle gwahanol iawn heddiw"

Meddyliwch am iaith fel hyn...

Mi fedrwch fynd i lefydd ar un olwyn (iaith)

Felly hefyd ar olwyn fawr ac olwyn fach

Ond pan fo'r ddwy olwyn yr un maint ac mewn cyflwr da mi ewch ymhellach o lawer

"Dwi'n gweld y byd o ddau gyfeiriad. Mae'r Gymraeg wedi agor drysau ac wedi rhoi pâr arall o adenydd i fi"

"Dwi'n falch o'r Gymraeg"

"Heb fy addysg Gymraeg... fydden i ddim wedi cael yr holl gyfleoedd..."

"Dwi'n ddigon ffodus i gael dwy iaith ac mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o pwy ydw i."



"Rwy'n cario'r Gymraeg 'da fi..."

Siarter Iaith Gymraeg @siarteriaith

hunaniaith

Siarter Iaith

Dwy iaith... dwywaith y dewis

Pwrpas **Y Siarter Iaith** yw ysbrydoli ein plant i wneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd, er mwyn iddynt...

- ...elwa'n addysgol
- elwa'n gymdeithasol
- elwa'n ddiwylliannol
- ac elwa'n economaidd

'Beth ydy mantais dwy iaith?'



Mantais addysgol

Mae ymchwil yn cadarnhau bod plant dwyieithog yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg ac yn tueddu i sgorio'n well mewn profion IQ na phlant sy'n siarad un iaith yn unig.

Mantais gymdeithasol

Mae siarad dwy iaith yn agor y drws i gymuned, byd gwaith a bywyd cymdeithasol llawer mwy amrywiol.
Dwy iaith, dwywaith y dewis.

Mantais ddiwylliannol

Yn hanes, yn fiwsig, yn llyfrau, yn fyd teledu - mae gan blentyn dwyieithog fwy o ddewis.
Dau fyd iaith, dwy ffenest ar y byd.

Mantais cael gwaith ac ennill arian

Mae pobl ddwyieithog yng Nghymru yn ennill rhwng 8% a 10% yn fwy mewn cyflog pob blwyddyn o'i gymharu â phobl sy'n siarad un iaith yn unig.

Anogwch eich plant i siarad Cymraeg...

- yn y cartref
- wrth chwarae
- efo ffrindiau
- efo'r teulu
- yn y siop ac ar y stryd

GWYNEDD, EWROP A'R BYD

Mae **65%** o bobl Gwynedd yn siarad Cymraeg a Saesneg

o bobl cyfandir Ewrop yn siarad o leiaf dwy iaith

Mae dros **2/3** o bobl y byd yn siarad dwy iaith neu fwy

Mae'n haws i rai sy'n siarad dwy iaith ddysgu ieithoedd eraill

"Mae tystiolaeth bendant yn dangos bod plant dwyieithog yn well am ganolbwyntio a deall cysyniadau"
Gwefan Newyddion y BBC

"Mae plant dwyieithog yn fwy tebygol o gael gwell canlyniadau arholiadau"
Richard Gartner - The Independent

Addewid Gwynedd:
Bydd pob plentyn yng Ngwynedd yn gadael yr ysgol gynradd yn gwbl ddwyieithog

Cwestiynau cyffredin...

Fydd dysgu dwy iaith yn effeithio ar y Saesneg?

Na! Petai chi'n chwarae pêl-droed ni fyddai hyn yn amharu ar eich gallu i nofio - yr un ydy'r rheol efo iaith.

Fydda hi ddim yn well dysgu iaith sy'n fwy 'defnyddiol' na'r Gymraeg?

Mae mwy o swyddi nag erioed o'r blaen yng Nghymru yn gofyn am sgiliau dwyieithog. Mae'r Gymraeg yn sgil werthfawr yn y gweithle.

Ar gyfartaledd mae canlyniadau profion ac arholiadau Saesneg plant dwyieithog yn uwch na chanlyniadau plant sy'n siarad un iaith yn unig.



Mae ymchwil yn dangos bod disgyblion sy'n rhugl mewn dwy iaith yn dueddol o wneud yn well mewn pynciau eraill hefyd.